**Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis**
**Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis**

Dyddiad ac amser: Nos Fawrth 26 Medi 2017, 18.00-19.45
Tuesday 26 September 2017, 18.00-19.45
Lleoliad: Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel.
Conference Room A, Ty Hywel

Yn bresennol: Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd), Tristan Humphreys (Ysgrifennydd), Alison Jones, Dr Geraint Preest, Graham Phillips, Dr Jill Swift, Norma McGough, Rhun Ap Iorwerth AC, Sara Moran (Diabetes UK), Sian Evans.

| Na fydd. | Eitem |
|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>Henry Wilkins, Dr Huw Jenkins, Mark Isherwood AC |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br><br>Cymeradwywyd y cofnodion heb ddiwygiadau |
| 3 | **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**<br>a. Ethol swyddogion<br>Cafodd Dr Dai Lloyd AC ei ailethol yn Gadeirydd y grŵp.<br>*Enwebwyd gan: Graham Philips / Eiliwyd gan: Jill Swift*<br><br>Cafodd Tristan Humphreys ei ailethol yn Ysgrifennydd y grŵp<br>*Enwebwyd gan: Alison Jones / Eiliwyd gan: Dr Dai Lloyd AC*<br><br>b. Adolygiad o gyfrifon ac adroddiad blynyddol<br>Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol a'r adolygiad o gyfrifon i'r grŵp gytuno arno gan nodi unrhyw ymholiadau neu ddiwygiadau i'r ysgrifennydd erbyn 4 Hydref.<br><br>CAM I'W GYMRYD: Tristan Humphreys i gyflwyno Adolygiad o Gyfrifon ac Adroddiad Blynyddol i'r swyddfa gyflwyno. |
| 4 | **Cynorthwyo Dysgwyr ag Anghenion Meddygol**<br><br>Croesawyd Sara Moran (SM) o Diabetes UK i'r cyfarfod gan Tristan Humphreys (TM), a rhoddwyd gwybodaeth gefndirol am gyfraniad Coeliac UK gyda'r gynghrair iechyd mewn ysgolion (cynghrair o tua 25 o elusennau iechyd sy'n gweithio yng Nghymru). Yn wreiddiol, roedd hyn yn canolbwyntio ar ddiweddaru canllawiau Cymru gyfan ar gyfer plant ag anghenion meddygol (Cynorthwyo Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd) ac mae hyn wedi datblygu'n |

| | |
|---|---|
| | waith â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru). Gwahoddwyd SM i roi trosolwg o waith y gynghrair a'r cynnydd hyd yma.<br><br>Mae SM wedi cydlynu'r gynghrair dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae wedi ymateb i nifer o ymgynghoriadau a rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Mawrth 2017. Mae hawliau a hawlogaeth yn aneglur o dan y system gyfredol, ac mae nifer o blant â diabetes yn dibynnu ar y system SEN gyfredol i gael cymorth hanfodol. Felly, gallai'r newidiadau a gynigir yn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) (ADY) arwain at amharu'n sylweddol ar y plant hyn. Mae'r Bil ADY hefyd yn rhoi cyfle i leddfu nifer o'r heriau a wynebir gan blant ag anghenion meddygol nad ydynt yn cael eu cefnogi gan y fframwaith ddeddfwriaethol ar hyn o bryd. Gan hynny, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno gwelliant sy'n diffinio anghenion meddygol ar wyneb y Bil. Mae'r gwelliant hwn yn cadarnhau y caiff anableddau fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fod o ganlyniad anghenion meddygol, fodd bynnag nid yw'n ymestyn cwmpas y Bil i gynnwys cyflyrau meddygol nas cynhwysir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn esgor ar bryder gan Coeliac UK gan fod amywsedd a dweud y lleiaf ynghylch ei statws o dan Ddeddf Cyraddoldeb 2010. Mae hyn hefyd yn broblem ar gyfer cyflyrau eraill megis alergeddau ac asthma.<br><br>Yn anffodus, mae hyn yn arwain ar dynnu llinell gweddol anghyfforddus rhwng rhai cyflyrau. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant yn ddadleuol gan ei fod nodi ffaith gyfreithiol ac fe'i cefnogir gan y pleidiau. Byddai hefyd yn llwyddiant sylweddol ac yn rhoi Cymru o flaen gwledydd eraill y DU mewn perthynas â rhoi cefnogaeth yn yr ysgol ar gyfer anghenion meddygol. Bydd hyn yn sicrhau cyllid, ynghyd â hyder a diogelwch i staff cymorth ac undebau.<br><br>Esboniodd NMG nad yw clefyd seliag yn cael ei ystyried yn gyffredinol i fod yn anabledd yn unol â diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb, ond nid yw hyn wedi'i brofi yn y llys.<br><br>Un opsiwn i roi eglurder yn hyn o beth i glefyd seliag yw sicrhau bod y Cod Ymarfer yn cyfeirio ar glefyd seliag ac yn cynnwys adran gryf, eang ar anghenion gofal iechyd. Dylai hyn yn ei dro roi sylfaen i gefnogaeth ar gyfer clefyd seliag mewn ysgolion. Gofynnodd TH i Dr Dai Lloyd (DL) a Rhun ap Iorwerth (RaI) yn benodol am eu sylwadau ynglŷn â'r Ddeddf Cydraddoldeb.<br><br>Eglurodd DL, boed y Ddeddf Cydraddoldeb yn gymwys neu ddim, y dylai clefyd seliag gael ei gyfrif fel angen ychwanegol. Nododd RaI y gellid ystyried bod angen lefel is o gefnogaeth wrth reoli clefyd seliag drwy ddefnyddio deiet ddi-glwten, o gymharu â chyflyrau eraill.<br><br>Dywedodd TH fod Coeliac UK yn falch o'r cynnydd yn y canllawiau 'Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd'.<br><br>CAM I'W GYMRYD: TH a SM i barhau i drafod ac ystyried yr opsiynau cefnogaeth clefyd seliag mewn unrhyw fframwaith newydd wrth drafod y Bil yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| 5 | Informatica<br><br>a. Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd (NMG/TH)<br><br>Rhoddodd TH ddiweddariad i'r grŵp ar feddalwedd Coeliac Informatica. Cyfarfu TH â Simon Scourfield o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i drafod y cynnydd o ran casglu data canolog ar lefel clystyrau. Yn anffodus, mae'r Pwyllgor DQS yn cael egwyl ar hyn o bryd, ond mae SS wedi dweud y gall gael cymeradwyaeth y cadeirydd ar hyn, felly, mae angen i Coeliac UK lunio cais i'r Pwyllgor  Gan gymryd y caiff ei gymeradwyo, gellir newid y gallu i gasglu yn sydyn iawn. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wrthi'n ystyried diweddaru'r dangosfwrdd, ac mae wedi gofyn i'r elusen ac i Dr Geraint Preest (GPr) roi adborth ar y modiwl (e.e. beth yw'r prif bethau y mae meddygon teulu am eu gweld ar y dangosfwrdd?). Bydd Coeliac UK hefyd yn darparu model ar gyfer y modiwl ynghyd â chopi ar gyfer gwefan y fideo i'w roi ar safle Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi cytuno i ddatblygu dogfen gymorth ar gyfer defnyddio'r feddalwedd, ac mae wrthi'n ystyried webinar wedi'i recordio y gellid ei rannu â meddygon teulu.<br><br>Roedd y cyfarfod hefyd yn tynnu sylw at y rhwystrau technegol ac ymddygiadol. O safbwynt technegol, roedd tua hanner yr ymarferwyr yn defnyddio meddalwedd EMIS nad oes ganddi raglen Audit+ wedi'i osod yn awtomatig arni. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu y bydd Audit+ wedi'i osod ar o leiaf un o gyfrifiaduron y feddygfa, ond ni fydd o anghenraid wedi'i osod ar yr holl gyfrifiaduron. I hyn allu bod ar gael ar draws y feddygfa, byddai angen gwneud cais arbennig i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a llwytho'r meddalwedd ar holl gyfrifiaduron y feddygfa.<br><br>Mae TH wedi bod mewn cysylltiad â Byrddau Iechyd Lleol ar draws Cymru i ofyn am sesiynau Amser Dysgu Gwarchodedig (PLT) ar gyfer y feddalwedd. Rhybuddiodd Bwrdd Iechyd Cwm Taf  fod y cyfnod rhagarweiniol ar gyfer PLT yn hir iawn, ac ategwyd hyn gan Simon Scourfield a soniodd am ddisgwyl hyd at 18 mis. Fe wnaeth Cwm Taf, fodd bynnag, ei anfon allan i'w holl feddygfeydd yn y post. Mae TH yn dal i aros i gael clywed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ond anfonwyd gwybodaeth i arweinydd pob clwstwr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ac roedd TH wedi cael rhai ymatebion gan feddygfeydd. Nodwyd rhai materion technegol ynghlwm wrth ddefnyddio'r feddalwedd ac, yn arbennig, fe nodwyd nad oedd y llinell gymorth ar gyfer systemau'r feddygfa yn gallu rhoi unrhyw gyngor ynghylch meddalwedd Audit+. Mae gan TH fwy o waith i'w wneud yn hyn o beth, ac mae'n amlwg iawn bod angen llawer yn fwy o waith hyrwyddo.<br><br>Mae TH hefyd yn ymwybodol o'r heriau o ran ymddygiad ac ysgogiad lle bo'r feddalwedd wedi'i gosod, gan fod dal angen meddyg teulu unigol i gael ei hysbysu, ac o ystyried y nifer posibl o hysbysiadau penodol i gyflyrau, gallai hyn arwain at alaru ar yr hysbysiadau. Mae'n bosibl i osod hysbysiadau bad ydynt ond yn berthnasol i fodiwl seliag, ond mae angen cryn waith gan y defnyddiwr i wneud hyn.<br><br>Mynegodd Alison Jones (AJ) bryderon ynglŷn ag effaith Informatica ar ofal eilaidd a gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud i sicrhau nad oedd unrhyw effaith negyddol.<br><br>Cytunodd TH fod hwnnw'n bwynt pwysig iawn. Roedd yn teimlo ein bod yn |

| | |
|---|---|
| | bellach na'r hyn a feddyliem o ran defnydd, ond mae hyn yn rhywbeth y mae Coeliac UK yn ymwybodol iawn ohono, a bydd hyn yn cael ei gynnwys yn ein cynllun cyfathrebu wrth symud ymlaen. Mae hefyd yn wir, unwaith i'r DQS roi cymeradwyaeth, gallwn gael syniad llawer cliriach o effaith y feddalwedd hon.<br><br>CAM I'W GYMRYD: TH a NMG i gyflwyno cais i'r Pwyllgor DQS i gasglu data modiwl seliag yn ganolog.<br><br>CAM I'W GYMRYD: Coeliac UK i ddarparu model a chopi o'r modiwl Seliag a'r fideo.<br><br>CAM I'W GYMRYD: GPr a TH i roi adborth i Simon Scourfield ar welliannau i graffig dangosfwrdd y modiwl.<br><br>CAM I'W GYMRYD: Cysylltu â'r Cyd-Grŵp Cynghori ar Safonau Endosgopi GI |
| 6 | Presgripsiynau<br><br>a. Diweddariad ar ymgynghoriad GIG Lloegr (NMG)<br><br>Esboniodd Norma McGough (NMG) fod yr Adran Iechyd yn Lloegr wedi cau ei hymgynghoriad ar roi presgripsiwn bwydydd heb glwten, a bod cyfarfod wedi'i drefnu rhwng Coeliac UK a'r Adran ar 20 Mehefin. Roeddent yn derbyn dadleuon Coeliac UK yn erbyn gwahardd rhagnodi cynnyrch di-glwten mewn gofal sylfaenol a'r ansicrwydd a wynebai nifer o bobl â chlefyd seliag yn Lloegr ar sail eu cod post, a'r heriau iechyd cysylltiedig o ran anghydraddoldeb.<br><br>Erbyn hyn, mae tua 30 y cant o grwpiau comisiynu clinigol wedi tynnu'n ôl yn llwyr eu gwasanaeth rhagnodi di-glwten, mae 30 y cant wedi cyfyngu ar y gwasanaeth rhagnodi, ac mae 30 y cant yn dal i ddilyn y canllawiau rhagnodi cenedlaethol. Disgwylir i adroddiad yr ymgynghoriad gael ei gyhoeddi yn yr hydref ac mae'r Adran Iechyd wedi dweud y bydd yn siarad â Coeliac UK cyn ei gyhoeddi. Bydd ar yr ymateb ffurfiol angen cymeradwyaeth Whitehall. Mae Coeliac UK bellach yn ystyried camau gweithredu ac mae'n canolbwyntio ar amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed. Yr her yw y gallai hyn olygu bod pwysau ar feddygon teulu sydd eisoes â gormod o waith i nodi cleifion sy'n agored i niwed. Mae Coeliac UK wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag Arweinydd Rhagnodi BMA, Dr Andrew Green, a luniodd erthygl yng nghylchgrawn cynhadledd y blaid Geidwadol yn cyflwyno'r achos dros fod angen rhoi presgripsiynau cynnyrch di-glwten. Mae Coeliac UK hefyd mewn cysylltiad â thua 50 AS sydd wedi cynorthwyo aelodau lleol â'r mater hwn o'r blaen.<br><br>b. Cynllun peilot presgripsiynau Hywel Dda (AW)<br><br>Rhoddodd AJ ddiweddariad ar gynllun peilot presgripsiynau cynnyrch di-glwten Hywel Dda yn dilyn cyflwyniad a roddodd ym mis Mawrth. Mae'r cynllun peilot yn ystyried peidio â rhoi presgripsiwn ar gyfer bwydydd di-glwten ac yn hytrach roi cerdyn y gellir llwytho arian arno a fyddai'n rhoi cymhorthdal i dalu'r gwahaniaeth mewn cost rhwng y cynnyrch di-glwten a chynnyrch sy'n cynnwys glwten. Mae'r cynllun wedi cael cymrodoriaeth ymchwil felly caiff ei werthuso'n drylwyr.<br><br>Mynegwyd pryderon ynghylch cyfyngu defnydd y cerdyn i gynnyrch di-glwten yn unig ac felly bydd gofyn i'r cleifion sy'n rhan o'r cynllun peilot ddangos derbynebau ar gyfer yr hyn a brynir. Y cynllun gwreiddiol oedd lansio gyda |

| | |
|---|---|
| | Sodexo fel darparwr y cerdyn, fodd bynnag, penderfynwyd bod angen cynnal proses dendro lawn. Mae pedwar cwmni wedi cyflwyno cais, a chânt eu sgorio ar 28.09.17. Mae rhai o'r rhain yn gallu cyfyngu ar y mathau o gynnyrch y gellir eu prynu gyda'r cerdyn, er enghraifft gellir cyfyngu rhag prynu alcohol, tocynnau sinema, bwytai ac ati. Eglurodd AJ ei bod yn gobeithio dechrau ym mis Ionawr gyda 100 o gleifion ar draws naw meddygfa.<br><br>O brofiad AJ yn Hywel Dda, ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd o'r sefyllfa bresgripsiynau yn Lloegr, fodd bynnag, pan fydd cleifion yn clywed am hyn, maent yn tueddu i ddangos llawer mwy o ddiddordeb i fod yn rhan o'r cynllun peilot. Dylai'r data cychwynnol fod ar gael o gwmpas Gorffennaf / Awst gyda data ymchwil llawn ar gael o gwmpas Medi / Hydref. Mae AJ wedi cael byrddau iechyd eraill yn dangos rhywfaint o ddiddordeb a nododd fod awydd gan feddygon teulu yn Hywel Dda i weld newid. Mae AJ yn bwriadu bod mewn sefyllfa i wneud argymhellion yr adeg yma flwyddyn nesaf.<br><br>Gofynnodd TH a oedd y broses dendro wedi dangos bod gan y system gerdyn botensial technegol uwch nag a feddyliwyd yn wreiddiol, a chytunodd AJ gan ddweud bod dilyn proses gaffael wedi bod o gymorth mawr mewn rhai ffyrdd.<br><br>CAM I'W GYMRYD: AJ roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.<br><br>CAM I'W GYMRYD: Coeliac UK i ddiweddaru canlyniadau ymgynghoriad yr Adran Iechyd yn y cyfarfod nesaf. |
| 7 | Unrhyw fater arall<br><br>a. Diweddariad ar Sioe Bwyd Di-glwten (TH)<br><br>Cynhelir Sioe Bwyd Di-glwten cyntaf Cymru ar 28 Hydref o 10-4 yn y Radisson Blu yng Nghaerdydd.<br><br>Hyd yma, mae tua 2,000 wedi cofrestru. Ceir dadl banel yn ogystal â sgyrsiau ar ymchwil ac ati. Mae Coeliac UK yn chwilio am wirfoddolwyr, felly os ydych ar gael, cysylltwch â Tristan drwy anfon neges e-bost at Tristan.humphreys@coeliac.org.uk.<br><br>Gallwch gofrestru yma nawr.<br><br>b. Diabetes Cymru<br><br>Nododd SM fod cwmni i'w gael sy'n gweithredu o dan yr enw Diabetes Cymru, ac sy'n gweithredu fel elusen. Eryl Vaughan sy'n gyfrifol am yr elusen, ac mae ganddi logo gwyrdd a gwyn. Mae'r elusen yn cynnal cynhadledd yng Nghaerfyrddin. Mae rhai wedi bod mewn cysylltiad ac wedi rhoi arian, gan gamgymryd mai Diabetes UK Cymru ydoedd.<br><br>CAM I'W GYMRYD: TH i roi diweddariad ar lwyddiant y digwyddiad yn y cyfarfod nesaf. |

| | |
|---|---|
| 8 | Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:<br><br>6pm, dydd Mawrth 28 Tachwedd |

**Pwyntiau Gweithredu**

| **Cam i'w gymryd** | **O dan ofal** |
|---|---|
| CAM I'W GYMRYD: Tristan Humphreys i gyflwyno Adolygiad o Gyfrifon ac Adroddiad Blynyddol i'r swyddfa gyflwyno. | **TH** |
| CAM I'W GYMRYD: TH a SM i barhau i drafod ac ystyried yr opsiynau cefnogaeth clefyd seliag mewn unrhyw fframwaith newydd. | **TH/SM** |
| CAM I'W GYMRYD: TH a NMG i gyflwyno cais i'r pwyllgor DQS i ddata modiwl celiag gael eu casglu'n ganolog | **TH/NMG** |
| CAM I'W GYMRYD: Coeliac UK i ddarparu afatar a chopi ar gyfer fideo a modiwl Seliag | **TH/NMG** |
| CAM I'W GYMRYD: GPr a TH i roi adborth i Simon Scourfield ar welliannau graffigol i ddangosfwrdd y modiwl. | **TH/GPr** |
| CAM I'W GYMRYD: AJ i roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf. | **AJ** |
| CAM I'W GYMRYD: Coeliac UK i roi diweddariad ar ganlyniadau ymgynghoriad yr Adran Iechyd yn y cyfarfod nesaf. | **TH/NMG** |
| CAM I'W GYMRYD: TH i roi diweddariad ar lwyddiant y digwyddiad yn y cyfarfod nesaf. | **TH** |